# Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

# Cyfrifon Blynyddol
# ar gyfer y flwyddyn yn diweddu
# 31 Mawrth 2008

# CYFRIFON BLYNYDDOL

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

- ### Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a daeth i fodolaeth ar 1 Medi 2000. Diwygiwyd cylch gorchwyl a swyddogaethau'r Cyngor gan Ddeddf Addysg 2002.

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi dynodi'r Cyngor yn gorff proffesiynol hunanreoleiddiol. Yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu, mae'r Cyngor wedi cyllido'i hun drwy ffioedd cofrestru athrawon, ar wahân i'r agweddau hynny ar ei waith sy'n cael eu cyllido drwy grant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi llythyr cynnig grant i'r Cyngor yn nodi'r amodau y dylid cydymffurfio â hwy mewn perthynas ag agweddau penodol ar y gwaith y mae'n ei gyllido. Mae'r Cyngor yn amlinellu ei weithdrefnau a'i reolau ariannol yn y Rheolau Sefydlog a'r Llawlyfr Cyllid.

Dan Baragraff 14 Atodlen 1 y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dyddiedig 13 Mawrth 2007. Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael ar gais gan y Cyngor.

- ### Prif amcanion a gweithgareddau

Mae prif nodau'r Cyngor wedi'u nodi yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Y nodau yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu, a chynnal a gwella safon au ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon, er lles y cyhoedd. Mae manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol.

- ### Adolygiad o weithgareddau a datblygiadau

Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2008, cofnododd y Cyngor ddiffyg o £256,000 (£179,000 o ddiffyg yn 2006-07) ac asedau net o £346,000 (£679,000 ar 31 Mawrth 2007).

Daeth yr asedau sefydlog diriaethol a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn i gyfanswm o £63,000, a daeth yr asedau sefydlog anniriaethol i gyfanswm o £46,000.

Yn ystod y flwydddyn, roedd nifer yr achosion safonau proffesiynol (achosion ymddygiad proffesiynol, cymhwysedd, troseddau ac addasrwydd) gryn dipyn yn uwch na'r gyllideb. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'i gronfa disgyblaeth a sefydlwyd i ddelio ag adegau prysur yn ei waith achos, ymhlith pethau eraill. Roedd hefyd yn golygu bod angen cynnydd sylweddol yn y ffi gofrestru flynyddol a delir gan athrawon i gyllido gwaith craidd y Cyngor. Cytunodd Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad ar y cynnydd yn y ffi o £33 i £45 ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, 2008-09, ond fe'i pennwyd ar y lefel honno am ddwy flynedd bellach wedi hynny.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd y cyfnod cyflawn cyntaf pan fu'r Cyngor yn gweinyddu rhaglen gyllido datblygiad proffesiynol y Cynulliad ar gyfer athrawon yn nhair blynedd cyntaf eu gyrfaoedd. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad cynharach gan Lywodraeth y Cynulliad i ofyn i'r Cyngor weinyddu'r rhaglen, yn hytrach na'r AALlau. Bu'r gyllideb a nodwyd gan y Cynulliad ar gyfer 2007-08 ar sail ffigyrau blaenorol AALlau yn

annigonol, ac o ganlyniad, ganed cais am gyllid pellach, a ddarparwyd yn y flwyddyn. Ym mis olaf y flwyddyn ariannol, a thri mis cyntaf y flwyddyn ariannol newydd, mesurwyd taliadau Gwanwyn 2008 yn fwy manwl gywir, a fu'n golygu bod diffyg yn y cymorth grant sydd ar gael. Mae'r Cynulliad wedi cytuno i dalu am y diffyg hwn.

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r Cyngor ddechrau peilota'r rhaglen Athro Siartredig, hefyd, sy'n cael ei chyllido yn rhan o weithgarwch DPP, a gyllidir gan grant y Cynulliad.

- **Datblygiadau at y dyfodol**

Bydd y rhaglen Athro Siartredig yn parhau i gael ei pheilota, wedi'i gwerthuso gan asiantaeth annibynnol, ac yn sgil hynny, gwneir argymhellion ar gyfer prif ffrydio unrhyw raglen.

- **Talu credydwyr**

Dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998, mae gofyn i'r Cyngor dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn telerau ac amodau cytunedig, neu ymhen 30 diwrnod ar ôl derbyn y nwyddau, gwasanaethau neu anfoneb ddilys, p'un bynnag sydd hwyraf. Cyflawnwyd hyn yn achos 93.5% o'r holl anfonebau o'r fath yn ystod 2007-08 (94.5% yn 2006-07), ac ni thalwyd unrhyw Log Dyledion Masnachol ac nid oedd dim yn ddyledus mewn perthynas â thrafodion yn 2007-08.

- **Costau pensiwn**

Gweler yr Adroddiad Taliadau a Nodyn 1.10 ar gyfer manylion costau pensiwn y Cyngor.

- **Archwilio'r Cyfrifon**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Cyngor, a benodwyd dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

RSM Bentley Jennison oedd yr archwilwyr mewnol a benodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfrifyddu.

- **Datgelu Gwybodaeth Archwilio**

Hyd eithaf gwybodaeth y Prif Weithredwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio nad yw archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol ohoni. Cadarnheir bod yr holl gamau angenrheidiol wedi'u cymryd i roi gwybod i'r Prif Weithredwr am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth o'r fath.

- **Aelodau a chyfrifoldebau'r Cyngor**

Mae gan y Cyngor 24 o aelodau ar hyn o bryd. Penodwyd un aelod ar ddeg i'r Cyngor gan Weinidogion Cymru o fis Tachwedd 2007 ymlaen (un aelod o 1 Chwefror 2008 ymlaen). Penodwyd wyth aelod yn dilyn enwebiadau gan undebau athrawon a chyrff penodedig eraill a phenodwyd pedwar aelod yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru. Yn ystod y flwyddyn weithredol, cwblhawyd y broses ethol ar gyfer deuddeg o athrawon cofrestredig, a fu'n eu galluogi i gychwyn ar eu rolau o 1 Medi 2008. Mae un lle gwag ar y Cyngor bellach yng nghategori'r aelodau a benodwyd ar ôl cael eu

henwebu, a rhagwelir y caiff y lle hwn ei lenwi yn ystod y flwyddyn weithredol nesaf, sy'n golygu y bydd gan y Cyngor aelodaeth gyflawn o 25 o 1 Medi 2008 ymlaen.

Ar gyfer y flwyddyn weithredol rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008, aelodau'r Cyngor oedd:

| | |
|---|---|
| Mal Davies | (Cadeirydd) Pennaeth, Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd |
| Jacquie Turnbull | (Dirprwy Gadeirydd) Ymgynghorydd addysg a hyfforddiant |
| Philip Bassett | Darlithydd, Deon Dysgu ac Addysgu, Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (o 1 Tachwedd 2007) |
| Frank Bonello | Athro, Coleg Cymunedol Tonypandy, Rhondda Cynon Taf |
| Neil Butler | Athro, Ysgol Uwchradd y Trallwng, Powys (o 17 Tachwedd 2007) |
| Ron Carrotte | Athro, Ysgol Maes y Dderwen, Ystradgynlais, Powys (hyd at 31 Hydref 2007) |
| Tim Cox | Athro, Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg |
| Elwyn Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sheila Drayton | Ymgynghorydd mewn datblygiad proffesiynol a sefydliadol |
| Michael Edwards | Pennaeth, Ysgol Gynradd Maes y Coed, Pontypridd |
| Ian Guy | Uwch gyfreithiwr (addysg), Castell-nedd Port Talbot |
| Anthony Hughes | Cyn-Bennaeth, Ysgol Gynradd Pontrhydyfen, Castell-nedd Port Talbot |
| Angela Jardine | Athrawes, Ysgol Gynradd Gabalfa, Caerdydd |
| Sue Jenkins | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff, Casnewydd (hyd at 31 Hydref 2007) |
| Nichola Jones | Pennaeth Cynorthwyol, Gwasanaethau Arbenigol Anghenion Addysgol Arbennig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr (hyd at 31 Hydref 2007) |
| Gareth Jones | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryn Celynnog, Rhondda Cynon Taf (hyd at 31 Hydref 2007) |
| Goronwy Jones | Pennaeth, Ysgol Gynradd Baden Powell, Caerdydd |
| Hélène Mansfield | Pennaeth, Ysgol Gyfun Croesyceiliog, Cwmbrân |
| Valerie Merriman | Athrawes, Ysgol Fabanod Abergwynfi, Castell-nedd Port Talbot |
| Jane Morris | Cyfarwyddwr dros dro, Llywodraethwyr Cymru (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen) |
| Suzanne Nantcurvis | Athrawes, Ysgol Dinas Brân, Sir Ddinbych |
| Rosemond Nelson | Athrawes Fro yn gyfrifol am Ganolfan Iaith Gymraeg, Sir Gaerfyrddin |
| Richard Parry Jones | Cyfarwyddwr Addysg, Ynys Môn (hyd at 31 Hydref 2007) |

| | |
|---|---|
| Hugh Pattrick | Cadeirydd Llywodraethwyr Cymru (o 1 Chwefror 2008 ymlaen) |
| Gareth Roberts | Ymgynghorydd Addysg ac Athro Emeritws mewn Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor (hyd at 31 Hydref 2007) |
| Anne Robertson | Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, Archesgobaeth Caerdydd (o 1 Tachwedd 2007 ymlaen) |
| Jane Setchfield | Athrawes, Ysgol Uwchradd Llanedeyrn, Caerdydd |
| Sarah Stockford | Cydlynydd Llythrennedd, Ysgol Y Foryd, AALl Conwy |
| Jacky Tonge | Cyn-Brif Weithredwr, Cyngor Sir Powys |
| Gwen Williams | Cyn-Bennaeth, Ysgol Fabanod Edwardsville, Merthyr Tudful |
| Peter Williams | Cyn-Swyddog Addysg Taleithiol, Yr Eglwys yng Nghymru (hydat 31 Hydref 2007) |

Mae gan Aelodau'r Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnyddio cyllid cyhoeddus a'i incwm o ffioedd cofrestru. Yn benodol, maent yn gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau y cedwir at safonau uchel bob amser mewn gweinyddiaeth ac wrth wneud penderfyniadau;
- sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y Cyngor drwy oruchwylio'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol;
- goruchwylio'r gwaith o gyflwyno canlyniadau a gynlluniwyd drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol cytunedig;
- llunio strategaeth ar gyfer diogelu gwybodaeth bersonol a gedwir er mwyn cydymffurfio â chyfrifoldebau statudol y Cyngor;
- sicrhau nad yw'r Cyngor yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau na'i swyddogaethau, p'un a ydynt wedi'u diffinio mewn statud ai peidio, neu drwy unrhyw gyfyngiadau ar wariant a nodir mewn unrhyw femorandwm ariannol. Cynghorir aelodau ar y materion hyn fel arfer gan Brif Weithredwr y Cyngor a'i gynghorwyr cyfreithiol; a
- pharchu'r penderfyniadau a'r polisïau a wneir ar y cyd gan y Cyngor

### ° Buddiannau eraill aelodau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr Buddiannau sy'n cael ei chadw yn swyddfeydd y Cyngor ac sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld ar gais.

### ° Rhoddion elusennol

Yn ystod y flwyddyn, ni chyflwynodd y Cyngor unrhyw roddion elusennol.

**Sylwadau'r Rheolwyr**

Ceir manylion llawn am gynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion yn ystod 2007-08 yn yr Adroddiad Blynyddol cyhoeddedig. Dyma grynodeb o'r cyflawniadau hynny:

**Amcan 1: Cynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol**

- Cofrestru'r nifer uchaf o athrawon erioed, sef dros 38,900;
- Cwblhau a chyhoeddi dadansoddiad o gymwysterau athrawon ystafell ddosbarth a'r pynciau maent yn eu haddysgu; a
- Chynnal safonau uchel drwy wrando ar dros 20 o achosion safonau proffesiynol.

**Amcan 2: Darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu**

- Dechrau datblygu safbwyntiau cydlynol ac adeiladol ar drefniadau arolygu ysgolion, hunanreoleiddio proffesiynol mewn Addysg Bellach ac ar achrediad ar gyfer cyrsiau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; a
- Pharhau i gynnwys y proffesiwn mewn ymgynghoriadau ac wrth ddatblygu cyngor.

**Amcan 3: Datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol ymysg athrawon**

- Cefnogi athrawon newydd yn eu tair blynedd cyntaf o addysgu, drwy weinyddu rhaglen gyllido Sefydlu a DPC yn llwyddiannus.
- Lansio'n llwyddiannus gam cyntaf cynllun peilot y rhaglen Athro Siartredig;
- Cefnogi dros 5,800 o athrawon i wella eu harfer proffesiynol;
- Ymestyn datblygiad proffesiynol parhaus athrawon trwy drefnu digwyddiadau lledaenu ar y cyd â deg awdurdod addysg lleol a chyrff eraill; a
- Chyflwyno camau terfynol cyngor pwysig i'r Gweinidog ar Fframwaith Datblygiad Proffesiynol.

**Amcan 4: Cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu at gymdeithas**

- Sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau sy'n gyfwerth â mwy na £400,000 ynghylch athrawon er mwyn helpu i godi statws athrawon mewn cymdeithas.

**Amcan 5: Darparu systemau cyllid, personél a gweinyddu effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno'i amcanion**

- Derbyn barn archwilio ddiamod gan Swyddfa Arhcwilio Cymru;
- Cadw safon Buddsoddwyr mewn Pobl am y trydydd tro;

- o Mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd newydd; a
- o Llwyddo i gynnal etholiadau i ethol aelodau'r Cyngor.

### ◦ Risgiau ac ansicrwydd

Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr Risg o bob risg a nodwyd, sy'n cael ei hadolygu'n chwarterol, a'i hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio. Mae proses rheoli risg y Cyngor wedi'i hasesu gan archwilad mewnol, sy'n darparu sicrwydd sylweddol wrth gefnogi'r ffordd y mae'n ymdopi â risgiau ac yn eu rheoli.

Nodir risgiau yn unol â'r amcanion corfforaethol, ac mae'r risgiau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- o Y risg, o ran enw da a modd gweithredu'r sefydliad, na fydd y Cyngor yn gallu cyflawni ei ddyletswydd statudol i gynnal a datblygu'r Gofrestr athrawon cymwys yng Nghymru, gan gynnwys cwblhau gwiriadau i gadarnhau addasrwydd ymgeiswyr i gofrestru;
- o Y risg, o ran enw da'r sefydliad a'r gyfraith, bod y Cyngor yn methu â gweithredu'n briodol ei system agored a theg wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau safonau proffesiynol;
- o Y risg, o ran cyllid, nad yw'r Gweinidog yn cytuno ar ffi gofrestru a argymhellir neu'n ei gosod am gyfnod penodol sy'n wahanol i'r cyfnod arfaethedig;
- o A'r risg, o ran modd gweithredu a chyllid, bod y Cyngor yn methu â darparu systemau cyllid, personél a gweinyddu effeithiol, effeithlon a chadarn i ategu'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

Nodwyd rheolaethau mewn ymateb i'r risgiau allweddol hyn, ac i bob risg arall a nodir, gyda manylion y camau penodol i'w cymryd i reoli neu i leddfu'r risg. Caiff pob risg ei adolygu'n rheolaidd.

### ◦ Polisi Cyflogaeth

Mae'r Cyngor yn mabwysiadu ymagwedd sy'n ystyried cyfle cyfartal wrth recriwtio, datblygu a dyrchafu staff. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl lle maent yn meddu ar y sgiliau a'r galluoedd i gyflawni'r swydd. Ymgynghorir â chyflogeion a chânt eu hysbysu am faterion sy'n effeithio arnynt drwy fforymau staff, cyfathrebu ysgrifenedig, trafodaethau anffurfiol a, lle y bo'n briodol, cyfarfodydd gwybodaeth.

**Adroddiad Taliadau**

Mae'r Adroddiad Taliadau yn rhoi manylion arferion darparu taliadau i aelodau'r Cyngor ac uwch aelodau staff:

- **Contractau gwasanaeth**

Penodir staff yn unol â pholisi recriwtio a dethol y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol gwneud penodiadau o ran teilyngdod, ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond sydd hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Mae penodiadau'r uwch staff y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn yn rhai penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

- **Taliadau'r aelodau**

Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yw'r unig aelodau o'r Cyngor a allai dderbyn tâl. Nid oes gan y naill aelod na'r llall yr hawl i fod yn aelod o gynllun pensiwn y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Mr Mal Davies i wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor. Fel pennaeth mewn swydd, ymdrinnir â'r penodiad hwn fel secondiad ac ad-delir cyfran o'i gyflog i'w gyflogwr. Nid yw Mr Davies yn derbyn unrhyw daliadau'n uniongyrchol na buddiannau mewn nwyddau.

Treuliau yn unig a delir i holl aelodau eraill y Cyngor, gan gynnwys ad-dalu costau a ddaw i'w rhan wrth deithio i gyfarfodydd a thelir hefyd costau athrawon cyflenwi, neu gostau cyfwerth, i'r ysgol berthnasol, fel sy'n briodol. Adroddir pob gwariant yn gysylltiedig â'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac aelodau'r Cyngor fel costau Aelodau yn Nodyn 4 (Costau rhaglen uniongyrchol).

| | **2007-08 £'000** | **2006-07 £'000** |
|---|---|---|
| Ad-dalu costau i gyflogwr - Cadeirydd: Mr Mal Davies | 35 | 31 |
| Taliadau'r Dirprwy Gadeirydd: Mrs Jacquie Turnbull | 9 | 7 |

- **Taliadau uwch aelodau staff**

Roedd cyflog, hawliau pensiwn a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn nwyddau ar gyfer swyddogion uchaf y Cyngor fel a ganlyn:

| | Cyflog, 2007-08 £'000 | Cyflog, 2006-07 £'000 | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn gysylltiedig â phensiwn yn 60 oed, £'000 | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31/06/07 a chyfandaliad cysylltiedig, £'000 | CETV ar 31/03/07 £'000 | CETV ar 31/03/08 £'000 | Cynnydd real mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G Brace<br>Prif Weithredwr | 65-70 | 65-70 | 0-2.5 a chyfandaliad 0-2.5 | 25-30 a chyfandaliad 60-65 | 498 | 567 | -4 |
| H Llewellyn<br>Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon) | 55-60 | 55-60 | 0-2.5 a chyfandaliad 5-7.5 | 10-15 a chyfandaliad 30-35 | 106 | 150 | 24 |
| J Evans<br>Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) | 50-55 | 50-55 | 0-2.5 a chyfandaliad 0-2.5 | 15-20 a chyfandaliad 45-50 | 223 | 267 | 9 |

- **Cyflog**

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth; tâl perfformiad neu fonysau; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliad neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau a wnaed gan y Cyngor ac felly cânt eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, mae cyflog yr holl staff yn seiliedig ar raddfeydd cyflog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae taliadau'r Prif Weithredwr yn cael eu hadolygu'n flynyddol, yn seiliedig ar berfformiad fel y pennir gan y Pwyllgor Taliadau. Mae'r Pwyllgor Taliadau'n is-bwyllgor a benodir gan y Pwyllgor Gweithredol, ac mae'n cynnwys Cadeirydd y Cyngor a dau aelod arall.

- **Buddiannau mewn nwyddau**

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y Cyngor ac a ystyrir yn fuddiannau trethadwy yn llygaid Cyllid y Wlad. Ni thalwyd unrhyw fuddiannau mewn nwyddau yn ystod y flwyddyn.

- **Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSP). O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun budd-daliadau diffiniedig: naill ai "cynllun cyflog terfynol" (***classic***, ***premium*** a ***classic plus***); neu gyllun "gyrfa gyfan" (***nuvos***). Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau ***classic***, ***premium***,

***classic plus*** a ***nuvos*** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau i'r Mynegai Prisiau Adwerthu.  Gall aelodau sy'n dod i mewn i'r cynllun o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng ymaelodi â'r cynllun budd-dal diffiniedig priodol neu ymuno â threfniant buddiolwyr 'prynu arian' o safon â chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn cael eu gosod ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun ***classic*** a 3.5% ar gyfer y cynllun ***premium***, ***classic plus*** a ***nuvos***.  Mae buddiannau yn y cynllun '***classic***' yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed i enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth yn y cynllun ***premium***. Yn wahanol i'r cynllun ***classic***, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae cynllun ***classic plus*** yn ei hanfod yn hybrid, gyda buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun ***classic***, a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun ***premium***. Yn y cynllun ***nuvos***, mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y bydd yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif y pensiwn a enillwyd ei gredydu gyda 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â'r RPI. Ym mhob achos, gall aelodau roi rhan o'u pensiwn heibio (cymudo) i ddarparu cyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn buddiolwyr yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth.**  Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn buddiolwyr a ddewisir gan y cyflogai o ddetholiad o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os byddant yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy hefyd i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo/iddi orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd yr oedran pensiwn neu'n hŷn.  Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau ***classic***, ***premium*** a ***classic plus***, a 65 ar gyfer aelodau'r cynllun ***nuvos***.

Ceir manylion pellach ynghylch trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan ganlynol: www.civilservice-pensions.gov.uk.

- **Gwerthoedd Trosglwyddo Arian Cyfatebol (CETV)**

Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraidd o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr unigolyn i drefniadau

Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar eu cost eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ddichonadwy mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth ar y Lwfans Gydol Oes, a allai fod yn ddyledus pan godir buddiannau pensiwn.

- **<u>Cynnydd gwirioneddol mewn CETV</u>**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a gyllidir yn ei hanfod gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

- **<u>Iawndal am golli swydd</u>**

Ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd yn ystod y flwyddyn.

Gary Brace
Prif Weithredwr
28 Gorffennaf 2008

**Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr**

Dan Baragraff 14 Atodlen 1 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, mae gofyn i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o gyflwr y Cyngor a'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae gofyn i'r Cyngor:

- Gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- Datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y datganiadau ariannol; a

- Pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Nodir cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor, yn '*Managing Public Money*'.

## Datganiad ar Reolaeth Fewnol

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008, mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu cyllid cyhoeddus ac asedau'r Cyngor yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi dan reolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae trefniadau atebolrwydd yn cynnwys adolygu perfformiad bob chwarter gan y Pwyllgorau Gweithredol ac Archwilio, y Cyngor a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd adolygu bob chwe wythnos gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Diben y system reolaeth fewnol

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na chael gwared ar bob risg rhag peidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ond darparu sicrwydd rhesymol, er nad llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Bu'r system reolaeth fewnol yn ei lle yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

### Gallu i ymdopi â risg

Mae Strategaeth Rheoli Risg yn ei lle. Fel y Prif Weithredwr, mae'n gyfrifoldeb arnaf fi, gyda chefnogaeth fy nau uwch reolwr gweithredol, i sicrhau bod gallu'r Cyngor i ymdopi â risg yn ddigonol. Mae hyn yn cynnwys ein hadolygiad rheolaidd o'r Gofrestr Risg i gadarnhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'n busnes.

### Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r fframwaith risg a rheoli'n cynnwys cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu bob chwarter gan uwch swyddogion, ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Gweithredol ac Archwilio. Mae gan y Pwyllgor Archwilio gylch gorchwyl i oruchwylio polisi Rheoli Risg y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risg yn cynnwys manylion yr holl fygythiadau allweddol i gyflawni'r amcanion corfforaethol a gytunir yn y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol. Rhoddir sgôr i bob risg allweddol ar sail ei heffaith posibl ar fusnes y Cyngor a'i thebygolrwydd o ddigwydd. Mae'r strategaeth reoli'n ymwneud â derbyn, gostwng neu drosglwyddo risgiau mewn ymateb i hynny. Mae camau penodol gofynnol yn cael eu nodi, eu neilltuo i uwch reolwr a'u gweithredu erbyn terfynau amser penodol. Adroddir ar gynnydd yn ystod yr arolygiad rheolaidd gan yr uwch Dîm Rheoli. Yn ogystal, cyflwynir y Gofrestr Risg i'r Cyngor i'w hystyried o leiaf unwaith bob blwyddyn ariannol.

Rhoddwyd y wedd derfynol ar Gynllun Parhad Busnes yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r risgiau allweddol mewn perthynas ag adeiladau a systemau gwybodaeth. Profwyd hyn ar sail senario gan y Tîm Adfer yn sgil Trychineb yn ystod y flwyddyn a chaiff ei ailbrofi bob blwyddyn.

Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n gyforiog o ddata ynghylch athrawon. Cynhwysir data yng nghronfeydd data'r Cyngor, ond caiff ei rannu gydag athrawon a chyflogwyr unigol o bryd i'w gilydd at ddibenion penodol. O ganlyniad i'r pryderon ynghylch diogeledd data am unigolion mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, tynhawyd y trefniadau a fu ar waith gan y Cyngor o ran cyfnewid data ag ysgolion, AALlau ac athrawon.

Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- gwybodaeth ynghylch athrawon a rannwyd gydag AALlau a gaiff ei hanfon drwy e-bost mewn ffeiliau a ddiogelir gan gyfrinair yn hytrach nac ar ddisg drwy'r post;
- nid yw adroddiadau DPP a anfonir at AALlau bob tymor yn cynnwys manylion adnabod athrawon bellach;
- system electronig ddiogel ar gyfer rhannu manylion Sefydlu athrawon gydag AALlau;
- caiff dogfennau adnabod i ategu ceisiadau i gofrestru, e.e. pasportau, trwyddedau gyrru, eu dychwelyd drwy ddosbarthiad 'Special Delivery'.

Yn ystod y flwyddyn weithredol nesaf, rhoddir mwy o sylw i ddiogeledd gwybodaeth ym mhrosesau Rheoli Risg y Cyngor, a gofynnir i'r archwilwyr mewnol gynnal arolwg yn y maes hwn.

### Adolygu effeithiolrwydd

Fel Prif Weithredwr y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2008, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol ei lywio gan y canlynol:

- gwaith yr archwilwyr mewnol, a grynhoir yn eu hadroddiadau rheolaidd a'u hadroddiad blynyddol sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y Cyngor, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;

- rheolwyr gweithredol y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a

- sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system yn ei le.

Yn arbennig, caiff Rheolau Sefydlog y Cyngor eu hadolygu yn ôl y gofyn, gydag unrhyw ddiwygiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Yn yr un modd, caiff y Llawlyfr Ariannol ei adolygu'n barhaus, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n goruchwylio unrhyw ddiwygiadau.

**Problemau rheolaeth fewnol arwyddocaol**

Nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw broblemau rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Gary Brace
Prif Weithredwr
28 Gorffennaf 2008

**TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 dan Baragraff 14 Atodlen 1 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau, y dywedir yn yr Adroddiad hwnnw ei fod wedi'i archwilio.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys Adroddiad Taliadau, a'r Datganiadau Ariannol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yn ei sgil ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Adroddaf fy marn i chi ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gaiff y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yn ei sgil. Adroddaf i chi a yw'r wybodaeth benodol, yn fy marn i, a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a gymhwyswyd, ym mhob ffordd berthnasol, y gwariant a'r incwm at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

At hynny, adroddaf i chi os nad yw Cyngor Addysgu Cyffredinol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth a nodir gan awdurdodau perthnasol ynglŷn â thaliadau a thrafodion eraill.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalennau 13 i 15 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru â chanllawiau Trysorlys EM, a chofnodaf os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a chamau rheoli; nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ddod i farn ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenaf yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol amlwg yn y datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail y farn archwilio**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig (y DU ac Iwerddon), a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad ariannol yn cynnwys archwiliad, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiadau Taliadau i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r barnau sylweddol a wneir gan y Cyngor a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i i ddarparu digon o dystiolaeth imi er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio yn rhydd rhag camddatganiadau materol, boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan Weinidogion Cymru, o gyflwr materion Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar 31 Mawrth 2008 ac o'i warged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Sylwadau'r Rheolwyr a'r Adroddiad Taliadau, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Barn Archwilio ar Reoleidd-dra**

- Yn fy marn i, cafodd y gwariant a'r incwm, mewn pob ffordd berthnasol, eu cymhwyso at y pwrpasau a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Awst 2008

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd
CF11 9LJ

## Cyfrif Incwm a Gwariant
## ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | |
| Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 2 | 10,317 | 6,133 |
| Ffioedd cofrestru | | 1,277 | 1,234 |
| Incwm o gofrestriadau athrawon am wiriadau datgeliadau SCT | | 40 | 27 |
| Rhyddhawyd o Gronfa Grant y Llywodraeth | 13 | 6 | 11 |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Etholiadau | 14 | 56 | - |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Safonau Proffesiynol | 14 | 15 | - |
| Incwm arall | | - | 22 |
| **Cyfanswm incwm** | | **11,711** | **7,427** |
| **GWARIANT** | | | |
| Costau staff | 3 | 1,225 | 1,002 |
| Costau rhaglen uniongyrchol | 4 | 538 | 465 |
| Costau rhaglen DPP | 5 | 3,122 | 2,463 |
| Costau rhaglen Sefydlu a DPC | 6 | 6,486 | 3,169 |
| Costau gweithredu eraill | 7 | 611 | 498 |
| Dibrisiad | 9 | 47 | 53 |
| Amorteiddiad | 10 | 12 | |
| Cost dybiannol cyfalaf | | 18 | 27 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **12,059** | **7,677** |
| **(Diffyg)/ Gwarged ar weithgareddau cyffredin** | | **(348)** | **(250)** |
| Llog derbyniadwy | 8 | 74 | 44 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | | 18 | 27 |
| **(Diffyg)/ Gwarged ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i gronfeydd** | | **(256)** | **(179)** |
| **DATGANIAD O WARGED ARGADWEDIG** | | | |
| Gwarged argadwedig ar 1 Ebrill | | 332 | 841 |
| (Diffyg)/ Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | (256) | (179) |
| Trosglwyddiadau i/(o) gronfeydd dynodedig | | - | (330) |
| **Gwarged argadwedig ar 31 Mawrth** | | **76** | **332** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 34 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

**Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008**

| | 2007-08 £'000 | 2006-07 £'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/ Gwarged ar gyfer y flwyddyn | (256) | (179) |
| Symudiad yng Nghronfa Grant y Llywodraeth | (6) | 6 |
| **Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig yn gysylltiedig â'r cyfnod** | **(262)** | **(173)** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 34 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

**Mantolen**
**ar 31 Mawrth 2008**

| | Nodyn | 31 Mawrth 2008 £'000 | £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau Sefydlog Diriaethol | 9 | 92 | | |
| Asedau Sefydlog Anniriaethol | 10 | 36 | 128 | 78 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr a Rhagdaliadau | 11 | 742 | | 1,655 |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | | 3,116 | 3,858 | 1,870 |
| | | | | 3,525 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn | 12 | | (3,640) | (2,924) |
| **Asedau cyfredol net** | | | **218** | **601** |
| **Cyfanswm asedau** | | | **346** | **679** |
| **CYLLIDWYD GAN:** | | | | |
| **GYFALAF A CHRONFEYDD** | | | | |
| Cronfa Grant y Llywodraeth | 13 | | 11 | 17 |
| Cronfa etholiadau | 14 | | 19 | 75 |
| Cronfa safonau proffesiynol | 14 | | 10 | 25 |
| Cronfa cyfalaf | 14 | | 230 | 230 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | | | 76 | 332 |
| **Cyfanswm cyfalaf a chronfeydd** | | | **346** | **679** |

Gary Brace
Prif Weithredwr
28 Gorffennaf 2008

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 34 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

**Datganiad Llif Arian**
**ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2008**

| | Nodyn | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif/ (all-lif) net o weithgareddau cyffredin** | 15 | 1,281 | 849 |
| **Adenillion ar Fuddsoddiadau a Gwasanaethu Cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | 8 | 74 | 39 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i gaffael Asedau Sefydlog Diriaethol | 9 | (63) | (52) |
| Taliadau i gaffael Asedau Sefydlog Anniriaethol | 10 | (46) | (2) |
| **Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn arian** | | **1,246** | **834** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 22 i 34 yn ffurfio rhan o'r Cyfrifon hyn.

**Nodiadau ar gyfer y cyfrifon**

## 1. <u>Polisïau cyfrifyddu</u>

*1.1 Confensiwn Cyfrifyddu*

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes hyfyw gan gymhwyso'r confensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, maent yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, cyn belled â bod y gofynion hynny'n briodol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

*1.2 Incwm ffioedd cofrestru*

Mae'r flwyddyn gofrestru flynyddol yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth gyda'r ffi'n ddyledus ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Gofynnir i'r ffi gael ei thalu'n llawn, waeth pryd yn union yn ystod y flwyddyn y mae athro/athrawes yn cofrestru gyda'r Cyngor - ni roddir gostyngiad am gofrestru am ran o'r flwyddyn.

Cafodd incwm ffioedd ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail gronnol, gydag unrhyw ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008-09 yn cael eu trin fel incwm wedi'i dalu ymlaen llaw a chânt eu cofnodi ar y Fantolen fel rhwymedigaeth.

*1.3 Gwariant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)*

Caiff gwariant DPP ei gydnabod ar sail gweithgarwch a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd cais ar ei gyfer erbyn dyddiad penodol. Pan fydd cefnogaeth DPP wedi'i chynnig ond na dderbyniwyd cais erbyn y dyddiad hwnnw, cofnodir y cyfansymiau hyn fel ymrwymiadau.

*1.4 Gwariant Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)*

Caiff gwariant rhaglen Sefydlu a DPC ei gydnabod ar sail y tymor academaidd pan gwblhawyd y gweithgaredd hyfforddi. Caiff gwariant ac incwm grant ar gyfer tymor y Gwanwyn ei gynnwys o dan Groniadau (gwariant grant sy'n ddyledus i ysgolion) a Dyledwyr (grant sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) gan ddibynnu ar amser derbyn y taliad a'r grantiau perthnasol.

*1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol*

Diffinnir asedau sefydlog diriaethol fel unrhyw ddarn unigol o offer sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) sydd â bywyd economaidd/gweithredol amcangyfrifedig o fwy na blwyddyn. Lle y tueddir i ystyried cydrannau unigol fel grŵp, caiff y rhain eu trin fel asedau cyhyd â bod eu gwerth at ei gilydd yn fwy na'r trothwy cyfalafu.

Mae asedau sefydlog diriaethol wedi'u prisio ar sail cost hanesyddol ar ddiwedd y flwyddyn am nad yw unrhyw addasiadau ailbrisio'n berthnasol ym marn y Cyngor.

*1.6 Dibrisiad*

Darperir dibrisiad ar bob ased sefydlog diriaethol ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu'r gost, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased, yn gyfartal dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig fel a ganlyn:

- Caiff yr holl offer trydanol, gan gynnwys cyfrifiaduron ac offer swyddfa, ei ddibrisio ar sail linol dros dair blynedd; a

- Chaiff y dodrefn a'r gosodion eu dibrisio ar sail linol dros bum mlynedd.

Ym mhob achos, bydd dibrisiad yn dechrau o'r mis ar ôl eu prynu.

*1.7 Asedau Sefydlog Anniriaethol*

Cyfalafir gwaith datblygu meddalwedd a thrwyddedau sy'n costio mwy na £1,000 (gan gynnwys TAW) ac sydd â bywyd economaidd/gweithredol o fwy nag un flwyddyn.

Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost pob ased dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig:

- Caiff y gwaith o ddatblygu'r gronfa ddata ei amorteiddio ar sail linol dros dair blynedd; a

- Chaiff trwyddedau meddalwedd eu hamorteiddio ar sail linol dros dair blynedd.

Yn y ddau achos, bydd yr amorteiddio'n dechrau o'r mis ar ôl eu prynu.

*1.8 Grantiau'r Llywodraeth*

Mae'r Cyngor yn cael incwm grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweinyddu'r rhaglen cyllido DPP, y rhaglen cyllido Sefydlu a DPC, cefnogi dyfarnu Statws Athro Cymwys, gweinyddu Apeliadau Sefydlu a hefyd ar gyfer cyllido gwiriadau'r SCT ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso. Yn ystod cyfnod cynllun peilot yr Athro Siartredig, Llywodraeth Cynulliad Cymru yw prif gyllidwr y cynllun peilot, hefyd, yn cefnogi'n benodol gostau'r rhaglen a addysgir a chostau gweinyddu. Caiff grantiau a dderbynnir eu credydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn y flwyddyn pan dderbynnir hwy (ar sail croniadau), a chredydir unrhyw falans nas gwariwyd i'r incwm gohiriedig ar ddiwedd y flwyddyn.

O gyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, caiff incwm grant a ddefnyddir ar gyfer gwariant cyfalaf ei gredydu i Gronfa Grant y Llywodraeth. Gwneir trosglwyddiadau perthnasol o'r gronfa honno, sy'n gyfwerth â'r costau dibrisio blynyddol ar asedau a gaffaelwyd gyda chyllid cymorth grant, i'r Cyfrif Incwm a Gwariant wrth i'r asedau cyfalaf gael eu defnyddio.

*1.9 Stoc*

Mae'r Cyngor yn cadw stoc o gyhoeddiadau. Nid oes gan y rhain unrhyw werth gwireddadwy net ac o ganlyniad, mae'r holl wariant cysylltiedig yn ystod y flwyddyn yn cael ei nodi yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

*1.10 Costau pension*

Mae cyflogeion blaenorol a phresennol yn cael eu cynnwys yn narpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn yr Adroddiad Taliadau a Nodyn 3. Nid yw elfennau buddiannau'r cynlluniau'n cael eu cyllido ac maent yn anghyfrannol ar wahân i fuddiannau dibynyddion. Mae'r Cyngor yn cydnabod costau disgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a gyfrifir ar sail croniadau. Rhwymedigaeth y PCSPS yw talu unrhyw fuddiannau yn y dyfodol. Mewn perthynas ag elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

*1.11 Treth ar Werth (TAW)*

Nid yw'r Cyngor wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Nodir yr holl wariant a'r pryniadau asedau sefydlog yn y cyfrifon gan gynnwys TAW.

*1.12 Cost Cyfalaf*

Mae tâl tybiannol, a gyfrifir yn unol ag arweiniad y Trysorlys fel 3.5% (3.5% yn 2006-07) o gyfartaledd y cyfalaf a ddefnyddiwyd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008, wedi'i gynnwys fel cost weithredol yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

*1.13 Prydlesi Gweithredu*

Telir gwariant ar brydlesi eiddo o'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail costau'r flwyddyn. Mae prydlesi gweithredu rhentu offer yn cael eu talu o'r Cyfrif Incwm a Gwariant mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

*1.14 Rhagdaliadau*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trothwy *de minimis* o £1,200 (cost sy'n gyfwerth â £100 bob mis) ar gyfer cydnabod rhagdaliadau.

*1.15 Cronfeydd dynodedig*

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y gallai sefydlu cronfeydd dynodedig at ddibenion penodol yn y dyfodol. Rhoddir manylion y cronfeydd dynodedig presennol yn Nodyn 14 y Cyfrifon hyn.

## 2. Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru

| Grant | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|
| Swm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 9,233 | 6,150 |
| Grant a ddygir ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 446 | - |
| Grant sy'n ddyledus ar gyfer y rhaglen Sefydlu a DPC | 638 | |
| Llai incwm a ragdalwyd | - | (17) |
| **Grant i'w gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant** | **10,317** | **6,133** |

## 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

### 3.1 Costau staff

| | 2007-08 | | | 2006-07 |
|---|---|---|---|---|
| | Eraill | Staff a gyflogir yn barhaol | **CYFANSWM** | |
| | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyflogau | 38 | 939 | **977** | 801 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | - | 69 | **69** | 57 |
| Costau Pensiwn | - | 179 | **179** | 144 |
| **Cyfanswm** | **38** | **1,187** | **1,225** | 1,002 |

Cynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan Actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk <http://www.civilservice-pensions.gov.uk>).

Ar gyfer 2007-08, roedd cyfraniadau cyflogwr o £178,723 yn daladwy i'r PCSPS (2006-07, £144,222) ar un o bedair cyfradd rhwng 17.1 a 25.5 y cant o dâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyfan. O 2008-09, caiff y bandiau cyflog eu hadolygu ond bydd y cyfraddau yn aros yn ddigyfnewid. (Bydd y cyfraddau'n newid, gan ddechrau ym mis Ebrill 2009). Caiff y cyfraddau cyfraniadau eu gosod i dalu costau'r buddiannau sy'n cronni yn ystod 2007-08, i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau sy'n cael eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Caiff cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn buddiolwr gyda chyfraniad cyflogwr. Ni ddewiswyd yr opsiwn hwn gan yr un cyflogai o staff y Cyngor, ac felly ni wnaed unrhyw gyfraniadau cyflogwr.

Nid oedd unrhyw achosion o ymddeol ar sail afiechyd.

### 3.2 Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir

Cyflogwyd 32.2 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2008, fel a ganlyn:

| | 2007-08<br>Eraill | Staff a gyflogir yn barhaol | **CYFANSWM** | 2006-07<br>CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Amcan 1: codi statws addysgu drwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol | 0.5 | 10.6 | **11.1** | 8.9 |
| Amcan 2: darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn ar faterion addysgu | - | 1.0 | **1.0** | 1.0 |
| Amcan 3: datblygu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol ymysg athrawon | 1.2 | 11.1 | **12.3** | 9.8 |
| Amcan 4: cyfathrebu cyfraniad cadarnhaol y proffesiwn addysgu at gymdeithas | - | 1.8 | **1.8** | 1.6 |
| Amcan 5: darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithlon, effeithiol a chadarn sy'n cefnogi tasg y Cyngor o gyflwyno'i amcanion | 0.4 | 5.6 | **6.0** | 5.2 |
| **CYFANSWM** | **2.1** | **30.1** | **32.2** | 26.5 |

Nodir manylion cyflogau a hawliau pensiwn aelodau ac uwch staff y Cyngor yn yr Adroddiad Taliadau.

## 4. Costau rhaglen uniongyrchol

| | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|
| Costau aelodau | 43 | 49 |
| Cynnal a chadw'r gronfa ddata | 14 | 7 |
| Ffïoedd cyfreithiol | 266 | 167 |
| Datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol | 96 | 89 |
| Costau Cyfieithu | 10 | 16 |
| Costau argraffu, postio a deunydd hyrwyddo | 109 | 137 |
| **Cyfanswm** | **538** | **465** |

Mae costau rhaglen uniongyrchol yn cynnwys gwariant a gafwyd yn benodol wrth ymgymryd â dyletswyddau craidd y Cyngor.

## 5. Costau rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

| | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | 121 | 95 |
| Lledaenu | 131 | 91 |
| Bwrsarïau datblygiad proffesiynol | 1,926 | 1,543 |
| Ysgoloriaethau ymchwil athrawon | 115 | 57 |
| Cyfnodau sabothol athrawon | 125 | 47 |
| Rhwydweithiau datblygiad proffesiynol | 114 | 159 |
| Bwrsarïau grŵp | 467 | 471 |
| Costau cynllun peilot yr Athro Siartredig | 123 | - |
| **Cyfanswm** | **3,122** | **2,463** |

## 6. Costau rhaglen Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)

| | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | 62 | 97 |
| Gwariant grant Sefydlu | 4,654 | 2,990 |
| Gwariant grant DPC Blwyddyn 1 | 990 | 60 |
| Gwariant grant DPC Blwyddyn 2 | 780 | 22 |
| **Cyfanswm** | **6,486** | **3,169** |

Mae gwariant ynglŷn â'r rhaglen grantiau Sefydlu a DPC wedi codi'n sylweddol, gan mai 2007-08 oedd y flwyddyn gyflawn gyntaf i'r Cyngor fod yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun hwn, ac mae hefyd yn adlewyrchu cyfrifiad mwy cynhwysfawr o'r hawl yn y flwyddyn. Telir costau grant a gweinyddu ar gyfer y rhaglen hon gan grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 7. Costau gweithredu eraill

| | 2007-08 £'000 | 2006-07 £'000 |
|---|---|---|
| Treuliau Swyddogion | 71 | 38 |
| Hyfforddi a recriwtio | 25 | 34 |
| Rhent ac Ardrethu | 76 | 59 |
| Tâl am wasanaethau a chyfleustodau | 25 | 27 |
| Ffïoedd proffesiynol | 72 | 52 |
| Yswiriant | 24 | 20 |
| Argraffu a deunydd ysgrifennu | 64 | 66 |
| Postio | 87 | 63 |
| Costau cyfrifiaduron | 20 | 15 |
| Llogi mannau cyfarfod | 58 | 55 |
| Ffïoedd archwilio | 13 | 13 |
| Gwasanaethau archwilio eraill | 2 | 2 |
| Cynnal a chadw | 5 | 4 |
| Costau eraill | 69 | 50 |
| **Cyfanswm** | **611** | **498** |

## 8. Llog derbyniadwy

Derbyniwyd £74,000 o log (2006-07: £44,000) yn ystod y cyfnod mewn perthynas â chyfrif cadw'r Cyngor, gan gynnwys croniad o £4,000.

## 9. Asedau Sefydlog Diriaethol

| | Offer Swyddfa £'000 | Offer cyfrifiadurol £'000 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 89 | 253 | 170 | 512 |
| Ychwanegiadau | - | 63 | - | 63 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **89** | **316** | **170** | **575** |
| **Dibrisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 80 | 214 | 142 | 436 |
| Cost am y flwyddyn | 4 | 36 | 7 | 47 |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **84** | **250** | **149** | **483** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2008** | **5** | **66** | **21** | **92** |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2007 | 9 | 39 | 28 | 76 |

## 10. Asedau Sefydlog Anniriaethol

| | Datblygiadau i'r gronfa ddata £'000 | Trwyddedau Meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | - | 2 | 2 |
| Ychwanegiadau | 46 | - | 46 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **46** | **2** | **48** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | - | - | - |
| Cost am y flwyddyn | 11 | 1 | 12 |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **11** | **1** | **12** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2008** | **35** | **1** | **36** |
| Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill 2007 | - | 2 | 2 |

## 11. Dyledwyr a Rhagdaliadau

| | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | | |
| Dyledwyr | 643 | 1,591 |
| Rhagdaliadau | 99 | 64 |
| **Cyfanswm** | **742** | **1,655** |

Cafwyd gostyngiad yng nghyfanswm y dyledwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd i gyllid ar gyfer gwariant grant Sefydlu a DPC mewn perthynas â Thymor y Gwanwyn 2008 gael ei dderbyn yn gynharach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, er ei fod yn cynnwys diffyg yn y cyllid hwnnw. Roedd y dyledwr cysylltiedig a nodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cynnwys y cyllid grant ar gyfer y tymor llawn.

**12. Credydwyr**

| | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | | |
| Ffïoedd cofrestru a ragdalwyd | 270 | 239 |
| Grant a ragdalwyd | - | 446 |
| Credydwyr eraill | 1,355 | 286 |
| Talu wrth Ennill (PAYE) | 14 | 12 |
| Yswiriant Gwladol | 10 | 10 |
| Credydwr pensiwn | 18 | 15 |
| Croniadau | 1,973 | 1,916 |
| **Cyfanswm** | **3,640** | **2,924** |

Yn ogystal â'r credydwyr a nodir uchod, roedd gan y Cyngor gyfanswm o £33,066 o ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn (2006-07: £1,465). Ymysg yr ymrwymiadau hyn mae cronfeydd grant DPP a oedd wedi'u dyrannu i athrawon ond nad oedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau ar eu cyfer erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y dyfodol, telir yr hawliadau hyn o gyllid grant DPP ar gyfer 2008-09.

**13. Cysoni symudiadau yng Nghronfa Grant y Llywodraeth**

| | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 17 | 11 |
| Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn | - | 17 |
| Rhyddhawyd i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn ystod y flwyddyn | (6) | (11) |
| **Ar 31 Mawrth** | **11** | **17** |

**14. Cronfeydd dynodedig**

Yn unol â strategaeth ariannol y Cyngor, mae'r cronfeydd dynodedig canlynol wedi'u sefydlu yn ystod y flwyddyn:

**Cronfa etholiadau** I ledaenu costau ethol aelodau o athrawon i'r Cyngor dros y cyfnod pedair blynedd rhwng etholiadau. Cymeradwywyd y gronfa hon gan y Cyngor yn 2003-04 pan gytunwyd ar lefel o £50,000, ac mae wedi'i newid ers hynny i £100,000. O ystyried y costau a gafwyd yn etholiad 2008, caiff y balans i'w gronni cyn yr etholiad nesaf ei ailystyried.

**Cronfa safonau proffesiynol** I leihau effaith anwadaliad ar nifer yr achosion a gyfeiriwyd ar gyfrifiad gosod ffi'r Cyngor, ac i ddarparu ar gyfer costau unrhyw her gyfreithiol a fyddai'n llawer mwy na'r costau a delir gan Yswiriant Indemniad Proffesiynol. Cytunodd y Cyngor i sefydlu'r gronfa hon yn ystod 2005-06 pan

osodwyd balans o £75,000. Mae'r balans hwn wedi'i leihau yn ystod y flwyddyn i roi cyfrif am y cynnydd sylweddol mewn gwariant ar ddisgyblaeth a adroddwyd eleni.

**Cronfa cyfalaf** Cymeradwywyd y gronfa hon gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2006 gyda golwg ar ddatblygu, dros gyfnod yn y dyfodol, falans o £350,000 i gefnogi cynlluniau'r Cyngor i brynu swyddfeydd yn y dyfodol.

| | Etholiad | Safonau Proffesiynol | Cyfalaf | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Mantolen ar 31 Mawrth 2007** | 75 | 25 | 230 | **330** |
| Rhyddhawyd o gronfeydd | (56) | (15) | - | (71) |
| Ychwanegiad at gronfeydd | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2008** | **19** | **10** | **230** | **259** |

## 15. <u>Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian</u>

**Cysoni gwarged ar weithgareddau cyffredin â mewnlif arian net o weithgareddau cyffredin**

| | 2007-08<br>£'000 | 2006-07<br>£'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/ Gwarged ar weithgareddau cyffredin | (348) | (250) |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | 18 | 27 |
| Dibrisiad | 47 | 53 |
| Amorteiddiad | 12 | - |
| Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn credydwyr | 716 | 2,588 |
| (Cynnydd)/ Gostyngiad mewn dyledwyr | 913 | (1,580) |
| Rhyddhawyd o Gronfa Grant y Llywodraeth | (6) | 11 |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Etholiadau | (56) | - |
| Rhyddhawyd o'r Gronfa Safonau Proffesiynol | (15) | - |
| **Mewnlif/ (all-lif) arian net o weithgareddau cyffredin** | **1,281** | **849** |

(b) Dadansoddiadau o newidiadau mewn cronfeydd net yn ystod y cyfnod

| | 2008<br>£'000 | 2007<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 1,870 | 1,036 |
| Mewnlif/(all-lif) arian net | 1,246 | 834 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth** | **3,116** | **1,870** |

**16. Ymrwymiadau Cyfalaf**

Ar 31 Mawrth 2008 roedd gan y Cyngor ymrwymiadau cyfalaf o £11,280 mewn perthynas â datblygiadau i'r Gofrestr athrawon cymwys (2006-07: £49,820).

**17. Cysoni Symudiad mewn Ecwiti Trethdalwyr**

| | Mantolen ar 1 Ebrill 2007 £'000 | Gwarged/ (diffyg) am y flwyddyn £'000 | Trosglwyddiad net i/ (o) gronfeydd £'000 | **Mantolen ar 31 Mawrth 2008 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Grant Ohiriedig y Llywodraeth | 17 | | (6) | **11** |
| Cronfa etholiadau | 75 | - | (56) | **19** |
| Cronfa safonau proffesiynol | 25 | - | (15) | **10** |
| Cronfa cyfalaf | 230 | - | - | **230** |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 332 | (256) | - | **76** |
| **Cyfanswm** | **679** | **(256)** | **(77)** | **346** |

**18. Prydlesi gweithredu**

| | 31 Mawrth 2008 £'000 | 31 Mawrth 2007 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer taliadau prydlesi gweithredu | 93 | 69 |
| | **93** | **69** |
| Ymrwymiad blynyddol ar brydlesi adeiladau yn dod i ben: | | |
| Ymhen blwyddyn | - | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 94 | 94 |
| Ar ôl mwy na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **94** | **94** |

**19. Deilliannau ac Offerynnau Ariannol eraill**

Cyn 1 Ebrill 2004, cefnogwyd gweithgareddau'r Cyngor gan gyllid cymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er 1 Ebrill 2004, mae swyddogaethau craidd y Cyngor yn cael eu cyllido gan incwm ffioedd cofrestru athrawon, ac mae gweithgareddau eraill a gwblhawyd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu cyllido gan grant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau, ac mae'n lleihau'r posibiliad o fod yn agored i risg hylifedd drwy reoli ei adnoddau. Cedwir ei falansau arian mewn cyfrifon banc masnachol: felly nid yw'r Cyngor yn agored i risg o ran cyfraddau llog. Er bod y Cyngor yn gallu benthyg arian, ni fu angen iddo wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'r gwarged, ond mae

hyn yn adnau tymor byr gyda'r Trysorlys, ac nid yw'n newid y risgiau a wynebir wrth gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Caiff yr holl asedau a rhwymedigaethau eu nodi mewn arian sterling, felly nid yw'n agored i risgiau arian cyfred.

## 20. <u>Trafodion Parti Cysylltiedig</u>

Mae'r Cyngor yn gweinyddu rhaglen gyllido Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i athrawon yng Nghymru. Ystyrir ysgolion y dyfarnwyd cyllid DPP iddynt yn ystod y flwyddyn lle mae'r ysgol honno'n cyflogi naill ai athro/athrawes neu bennaeth sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor yn bartïon cysylltiedig.

Mae'r tabl isod yn darparu manylion y cyllid a ddyfarnwyd. Ym mhob achos, ni chymerodd yr aelod perthnasol ran yn y broses o wneud y penderfyniad i ddyfarnu cyllid.

| Enw'r ysgol | Nifer yr athrawon y dyfarnwyd cyllid DPP iddynt | Cyfanswm y cyllid DPP a ddyfarnwyd (£) |
|---|---|---|
| *Coleg Cymunedol Tonypandy* | *11* | *6,884* |
| *Ysgol Uwchradd Y Trallwng* | *6* | *3,176* |
| *Ysgol Maes Y Dderwen* | *17* | *9,103* |
| *Ysgol Gyfun Bryn Hafren* | *25* | *12,000* |
| *Ysgol Gyfun Pencoed* | *16* | *8,435* |
| *Ysgol Uwchradd Willows* | *2* | *1,058* |
| *Ysgol Gynradd Gabalfa* | *5* | *2,130* |
| *Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff* | *8* | *4,555* |
| *Ysgol Gynradd Baden Powell* | *3* | *5,590* |
| *Ysgol Gyfun Croesyceiliog* | *13* | *5,133* |
| *Ysgol Dinas Brân* | *17* | *8,831* |
| *Ysgol Uwchradd Llanedeyrn* | *4* | *1,832* |
| *Ysgol Y Foryd* | *1* | *585* |
| ***Cyfanswm*** | ***128*** | ***69,312*** |

Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd cyllid DPP i ddau aelod tuag at eu datblygiad proffesiynol eu hunain (rhestrir y manylion isod). Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y tabl uchod:

| <u>Enw</u> | <u>Categori DPP</u> | <u>Swm</u> |
|---|---|---|
| *Elwyn Davies* | *Bwrsari* | *£600* |
| | *Bwrsari Grŵp (Aelod)* | *£310* |
| *Hélène Mansfield* | *Bwrsari* | *£118* |

Dyrannwyd cyllid i wraig un aelod o'r Cyngor. Mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.

| Enw | Categori DPP | Swm |
|---|---|---|
| *Susan Joan Cox* | *Bwrsari* | *£312* |

Philip Bassett, sy'n aelod o'r Cyngor, yw Deon Addysgu a Dysgu yn Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWI). Caiff elfennau o gynllun peilot yr Athro Siartredig eu cyflwyno gan y sefydliad hwnnw, ac mae ef yn ymwneud â'r cynllun peilot. Y cyfanswm a adroddir yn y Cyfrifon hyn mewn perthynas â'r cynllun peilot yw £12,475.

Bu i'r Cyngor hefyd gynnal ei gyfarfod yn NEWI ym mis Gorffennaf. Y cyfanswm a nodir yn y Cyfrifon yw £502.

## 21. Rhwymedigaethau wrth Gefn

Nid oes unrhyw rwymedigaethau wrth gefn.

## 22. Digwyddiadau wedi'r Fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi'r Fantolen ar y dyddiad pan lofnodir y Cyfrifon hyn.

Cymeradwyodd y Prif Weithredwr y Cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 4 Awst 2008.